

Cofnodion Cyfarfod gyda Chorff Llywodraethu ac Aelodau o Staff Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg

Dyddiad	21 Hydref 2024
Amser	15:45
Lleoliad	Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg

Presenoldeb		
Enw	Llythrennau cyntaf yr enw	Teitl
Gaynor Davies	GD	Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Catrin Edwards	CE	Pennaeth Materion Trawsnewid, Presenoldeb a Llywodraethu
Daniel Williams	DW	Pennaeth Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles
Sarah Nicholls	SN	Swyddog Prosiect Cynorthwyol yr 21 ^{ain} Ganrif

1. Croeso a Chyflwyniadau

Estynnodd GD groeso i bawb, gan ddiolch iddyn nhw am ddod i'r cyfarfod. Cafodd pawb eu cyflwyno i'w gilydd.

2. Trosolwg o'r Ymgynghoriad

Rhoddodd GD drosolwg o'r cynnig a'r broses ymgynghori i'w dilyn, yn ôl yr hyn sydd wedi'i nodi yn y Ddogfen Ymgynghori.

3. Cwestiynau gan Aelodau o Staff ac Aelodau o'r Corff Llywodraethu

Gwahoddwyd y Corff Llywodraethu ac aelodau o staff Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg i ofyn cwestiynau. Mae'r cwestiynau a godwyd gan y Corff Llywodraethu ac aelodau o staff a'r ymatebion a ddarparwyd wedi'u crynhoi yn y tabl sy'n dilyn.

Rhif	Cwestiwn/Sylw	Ymateb
1.	A fyddai modd i chi egluro'r dyddiad penderfynu terfynol ar gyfer y cynnig yma, gan fod cyfarfodydd gyda'r adran Adnoddau Dynol (AD) yn cael eu cynnal ym mis Tachwedd.	Mae gwahanol gamau i'r ymgynghoriad. Bydd y penderfyniad terfynol ar y cynnig yn cael ei wneud tua mis Ebrill 2025, ond bydd cymorth AD ar gael i aelodau o staff cyn y dyddiad yma.
2.	Bydd staff yn colli llawer o gyfleoedd i ymgeisio am swyddi pellach. Mae hyn yn annheg ar staff yr ysgol.	Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (y Cyngor) yn deall bod y broses ymgynghori yn un gyflym. Mae wedi gweithio'n gadarnhaol yn y gorffennol ar ymgynghoriadau blaenorol. Fydd hyn ddim yn hawdd, ond mae'r dyddiadau dros dro yno i helpu aelodau o staff.
3.	Nid yw aelodau o staff yn gwybod beth sydd angen iddyn nhw eu gwneud gan nad yw penderfyniad	Rydyn ni'n cydnabod bod hwn yn gyfnod ansicr i aelodau o staff. Mae'r adran AD yno i gynig cefnogaeth. Caiff y broses ei llywio

	wedi'i wneud eto, a dydyn nhw ddim yn gwybod beth yw eu dyfodol. Nid yw aelodau o staff am wneud cais am swyddi eraill os bydd Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg yn aros ar agor.	gan yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Mae hwn yn ddewis i unigolion ei wneud. Mae carfan AD y Cyngor wedi ymrwymo i weithio gydag aelodau o staff yn unol ag amserlenni'r ymgynghoriad. Gall cyfleoedd godi i aelodau o staff, a bydd carfan AD y Cyngor ar gael i gwrdd â'r staff i'w helpu i wneud y penderfyniadau personol yma. Bydd cymorth AD hefyd ar gael ar ôl i'r penderfyniad terfynol gael ei wneud.
4.	Mae'r sefyllfa yma'n rhoi aelodau o staff mewn sefyllfa ofnadwy.	Wedi'i nodi.
5.	Mae'r cynnig yma'n anodd i'r plant, sy'n gorfod paratoi ar gyfer symudiad mawr.	Rhaid i ni edrych ar holl ffactorau'r cynnig ac annog pobl i lenwi'r ffurflen adborth.
6.	Mae'r Ddogfen Ymgynghori yn dweud y bydd cefnogaeth a phontio i ddisgyblion, ond nid yw'n esbonio sut. Beth fydd ar waith ar eu cyfer? Mae rhai disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg ac nid yw popeth yn addas i bob disgybl.	Efallai y bydd rhai rhieni/gwarcheidwaid yn dewis anfon eu plant i ysgol arall. Rydyn ni am leihau'r effaith emosiynol ar ddisgyblion a all fod yn anodd gan fod y sefyllfa'n ansicr. Mae'r Cyngor eisiau cynnwys disgyblion yn rhan o'r ymgynghoriad. Edrychir ar y broses bontio unwaith y bydd penderfyniad terfynol wedi'i wneud. Bydd pob disgybl ADY yn cael ei gefnogi, a bydd achlysuron pontio yn cael eu cynnal ar gyfer disgyblion. Mae disgyblion a gymerodd ran mewn ymgynghoriadau diweddar mewn ysgolion eraill wedi trosglwyddo'n dda.
7.	Mae'r Ddogfen Ymgynghori yn nodi bod yr adeilad y 'tu hwnt' i gael ei atgyweirio. A oes gyda chi restr o'r atgyweiriadau sydd angen eu gwneud?	Oes, byddai carfan Ysgolion y 21 ^{ain} Ganrif y Cyngor â mynediad at yr wybodaeth yma. Byddai carfan Eiddo'r Cyngor â'r rhestr. Rhestr o atgyweiriadau sydd eu hangen ydyw, nid rhestr o'r hyn sy'n angenrheidiol i wneud y safle yn addas ar gyfer addysg yn y 21 ^{ain} ganrif.
8.	Pam nad yw'r Cyngor wedi buddsoddi yn Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg ers degawdau? Ble mae'r buddsoddiad ar gyfer Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg? A oes modd i chi hefyd egluro sut does dim modd inni gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru oherwydd 'addasrwydd' y safleoedd, pan rydyn ni eisoes wedi gwneud hyn yn llwyddiannus?	Mae gan y Cyngor hanes da o fuddsoddi mewn ysgolion, er enghraifft Rhaglen Ysgolion y 21 ^{ain} Ganrif Band B. Rhaid i ni edrych ar flaenoriaeth angen y Rhaglen Ysgolion y 21 ^{ain} Ganrif, y mae'n rhaid bod gyda hi achosion busnes llym ar gyfer derbyn cyllid. Mae cyllid cynnal a chadw cyfalaf ar gael hefyd, ond mae hyn yn gweithio ar sail blaenoriaeth.
9.	Dros y pum mlynedd diwethaf, mae Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg wedi gweithio'n galed gyda'r Cyngor i wneud gwaith atgyweirio, peintio ac ailweirio. Caiff ei nodi yn y Ddogfen	Mae'n bosibl bod y geiriad penodol hwnnw wedi'i gymryd o'r adroddiadau ar gyflwr yr adeilad. Mae Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg yn amlwg yn canolbwyntio ar yr amgylchedd

	Ymgynghori fod yr adeilad yn 'adfeiliedig' – mae hyn yn sarhaus ac yn anghywir. Mae'r adeilad yn dal dŵr heb unrhyw baent yn pilio. Rydyn ni'n atgyweirio ardaloedd sydd ar gyfer disgyblion.	addysgol, ond y ffordd orau o asesu'r adeilad yw trwy arolygon cyflwr.
10.	Ni fydd adeiladau ysgol byth o'r un ansawdd.	Mae buddsoddiad yn seiliedig ar gyflwr yr adeilad fel y mae ac mae'n rhaid iddo fod â'r buddion a'r arbedion effeithlonrwydd a fwriedir.
11.	Mae modd i ni gyflwyno Cwricwlwm i Gymru mor dda ag unrhyw ysgol. Rydyn ni'n defnyddio dysgu awyr agored yn y coed yn ddyddiol.	Weithiau mae modd i adeiladau wella'r amgylchedd addysgol. Rydyn ni'n deall eich pwynt ac yn eich annog chi i'w gynnwys mewn ffurflen adborth.
12.	Mae llawer o ddysgu awyr agored yma. Mae gyda ni sied wair a phwll yng nghefn y safle na fuddsoddwyd ynddo erioed, ac felly mae bellach yn anniogel. Nid oes angen glaswellt ar ddisgyblion ar gyfer dysgu yn yr awyr agored. Mae gan rieni/gwarcheidwaid fwyd i'w fwyta oherwydd ei fod yn cael ei dyfu ar dir Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg.	Wedi'i nodi.
13.	Nodir yn y Ddogfen Ymgynghori nad yw'r adeilad yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae gan Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg lifft a gaiff ei ddefnyddio gan rieni/gwarcheidwaid a disgyblion sydd ei angen. Pe bai'r Cyngor yn pryderu am hyn, pam na chafodd hyn ei drafod yn 2018 pan roddwyd buddsoddiad i Ysgol Gymuned Tonyrefail?	Mae syrfewyr yn gwneud yr asesiadau yma ac yn mynegi eu barn. Mae ysgolion yn cael eu blaenoriaethu ar sail eu hanghenion – gallai'r anghenion yma barhau wrth i'r disgyblion dyfu drwy'r ysgol.
14.	Rydych chi'n ychwanegu baich ariannol ar rieni/gwarcheidwaid drwy wneud iddyn nhw deithio i Ysgol Gymuned Tonyrefail.	Wedi'i nodi.
15.	Os nad yw Ysgol Gynradd Tef-y-Rhyg yn addas ar gyfer mynediad i'r anabl – pam mae'n cael ei defnyddio bob blwyddyn fel gorsaf bleidleisio? Mae'n dweud llawer nad yw'r Cyngor wedi bod i Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg cyn cynnal yr ymgynghoriad yma. Nid yw'r Ddogfen Ymgynghori yn adlewyrchu Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg.	Mae swyddogion o'r Cyngor wedi bod i Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg yn y gorffennol. Yn aml, nid yw cynigion yn ymwneud â chyflwr yr adeilad yn unig, ond mae hefyd yn cynnwys pethau megis niferoedd disgyblion, lleoedd gwag, er enghraifft.
16.	I ba ysgol y mae disgyblion y tai lleol am ei mynychu, gan y bydd Ysgol	Wedi'i nodi.

	Gymuned Tonyrefail yn llawn? Efallai ei bod yn ysgol gymuned, ond nid yw yng nghymuned Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg.	
17.	Mae hwn yn gynnig anystyriol i'w gyflwyno pan mae disgwyl i tua 700 o dai gael eu hadeiladu.	Wedi'i nodi. Ar hyn o bryd mae llawer o ddisgyblion o'r tu allan i'r dalgylch yn mynychu Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg.
18.	A wnewch chi dynnu'r disgyblion o'r tu allan i'r dalgylch o Ysgol Gymuned Tonyrefail?	Bydd y meini prawf derbyn yn cael ei roi ar waith yn llym. Rydyn ni'n ffodus yn y Cyngor fod yna elfen o ddewis i rieni/gwarcheidwaid o ran ble mae plant yn mynd i'r ysgol.
19.	Pam y tynnwyd Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg oddi ar y rhestr derbyn disgyblion ar gyfer lleoedd meithrin a derbyn yn 2025? Mae rhai rhieni/gwarcheidwaid yn cael gwybod mai Ysgol Gynradd y Cymer yw'r unig opsiwn.	Dydy hyn ddim yn wir. Roedd Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg ar y rhestr pan wiriodd swyddogion o garfan Derbyn Disgyblion y Cyngor. Nid oes unrhyw newidiadau wedi'u gwneud i'r system. Mae yna broses gyfreithiol y mae'n rhaid i'r Cyngor ei dilyn.
20.	O ble y daw'r rhagamcanion a gaiff eu rhestru yn y Ddogfen Ymgynghori?	Mae data genedigaethau byw yn ein helpu i gyfrifo'r rhagamcanion, ac mae'r niferoedd yn gostwng. (Aeth CE drwy niferoedd disgyblion Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg gyda'r Pennaeth).
21.	Pa riant/gwarcheidwad fyddai'n gwneud cais i anfon eu plentyn i ysgol sydd am 'gau'? Mae'n annheg.	Rydyn ni'n defnyddio data genedigaethau a chynlluniau ar gyfer datblygiadau tai i sefydlu rhagamcanion disgyblion. Mae lleoedd ysgol yn cael eu hadolygu'n gyson, ac mae'r wybodaeth angenrheidiol wedi'i darparu i Lywodraeth Cymru.
22.	Mae'r data tai yn awgrymu y gallai 145 o ddisgyblion symud i Ddwyrain Tonyrefail erbyn 2026.	Mae'r holl ddatblygiadau lleol wedi eu hystyried ac mae'r rhagamcanion yn cael eu hadolygu'n gyson. Rydyn ni'n annog pobl i nodi hyn ar y ffurflenni adborth.
23.	Rydych chi'n bychanu holl ffigurau a data i wneud i Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg edrych yn ofnadwy fel bod Cabinet y Cyngor yn penderfynu cau Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg.	Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru 2018 (11/2008) yn rhagnodol iawn o ran pa wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys yn y Ddogfen Ymgynghori. Nid oes unrhyw ddata wedi'i newid.
24.	Rwy'n anghytuno â'r data a ddefnyddiwyd i amlinellu tlodi'r ardal yn y Ddogfen Ymgynghori – maen nhw'n wahanol i'r data rydw i wedi edrych arno. Does dim modd i bobl mewn ardal ddifreintiedig fforddio trafniadaeth gyhoeddus na gyrru disgyblion i'r ysgol.	Mae modd i ni wirio o ble y daeth y data yn y Ddogfen Ymgynghori.
25.	A yw cludiant i ddisgyblion yn newid i ddwy filltir ym mis Medi ar gyfer ysgolion cynradd?	Caiff cludiant ei edrych arno fesul achos. Caiff system benodol ei defnyddio gan y Cyngor i bennu'r pellter rhwng ysgolion.

26.	Cafodd llwybr cerdded diogel ei sefydlu pan gafodd y cynnig ei gyhoeddi. Mae'n cymryd 45 munud i gerdded o Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg i Ysgol Gymuned Tonyrefail – mae hyn yn rhy bell i blant ifainc.	Wedi'i nodi.
27.	Mae'r cynnig am gael gwared ar galon y gymuned. Fydd rhieni/gwarcheidwaid ddim yn anfon eu plant i ysgol cyfrwng Cymraeg agosach oherwydd dydyn nhw ddim yn siarad Cymraeg. Mae'r Ddogfen Ymgynghori yn ddamniol, yn enwedig pan fo Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg eisoes yn derbyn disgyblion o ysgolion eraill.	Mae'r Cyngor yn deall bod hyn yn peri gofid. Rhaid i ni edrych ar niferoedd disgyblion, lleoedd gwag, rhagamcanion a chostau cynnal a chadw i ystyried yr holl ffactorau. Does dim modd i ni fuddsoddi ym mhob ysgol ar unwaith.
28.	A roddwyd ystyriaeth i gyfuno Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg ac Ysgol Gynradd Gymuned Hendreforgan ar unrhyw adeg?	Naddo.
29.	Mae'r Ddogfen Ymgynghori yn dweud bod 'ychydig o ddatblygiadau tai' wedi'u cynllunio ar gyfer yr ardal.	Mae pob datblygiad tai wedi ei ystyried. Rhaid i ni hefyd ystyried bod niferoedd disgyblion y tu allan i'r dalgylch ar gyfer Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg ac Ysgol Gymuned Tonyrefail yn sylweddol.
30.	Mae Ysgol Gymuned Tonyrefail yn rhy fawr ac yn rhy amheronol. Mae angen ysgol fach fel calon ein cymuned. Nid yw cael disgyblion o'r tu allan i'r dalgylch yn rhywbeth negyddol.	Mae disgyblion yn nalgylch Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg sy'n mynychu ysgolion eraill yn lle. Rydyn ni'n edrych ar yr arbedion maint mewn ysgolion mwy. Does dim modd rhagdybio nad oes gofal agos yn bresennol mewn ysgol fawr.
31.	Rydych chi'n tynnu lle diogel oddi wrth y gymuned yma a'i disgyblion.	Mae rhai disgyblion o'r ardal yma'n trosglwyddo i ysgolion eraill. Mae rhieni/gwarcheidwaid yn dewis anfon eu plant i ysgolion bach am amrywiaeth o resymau, ond rhaid edrych ar lawer mwy o agweddau. Bydd ymgynghoriad hefyd yn cael ei gynnal gyda'r disgyblion.
32.	Mae'r rhagamcanion disgyblion yn anghywir yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg. Rydych chi'n dileu dewis pobl – fydd rhieni/gwarcheidwaid ddim yn anfon disgyblion i ysgol Gymraeg.	Caiff y rhagamcanion eu cyfrifo gan ddefnyddio cyfraddau genedigaethau byw.
33.	Mae niferoedd disgyblion Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail yn gostwng. Beth fyddai'r rhagamcanion ar gyfer Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail heb ystyried cau Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg?	Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSGA) yn gosod targedau y mae angen eu cyrraedd gan Lywodraeth Cymru, ac mae'r Cyngor yn gwneud popeth o fewn ei allu i gyrraedd y targedau yma. Does dim cynlluniau i gau ysgol Gymraeg. Rhaid i ni

		edrych ar leoedd gwag yn ogystal â niferoedd disgyblion a rhagamcanion. Mae 170 yn nifer hyfyw ar gyfer twf mewn ysgol cyfrwng Cymraeg. Rydyn ni hefyd yn edrych ar niferoedd disgyblion Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg a'r ffigyrau o fewn y dalgylch.
34.	Mae modd i ddisgyblion wneud pethau allgyrsiol yma hefyd; dydyn ni ddim yn wahanol i Ysgol Gymuned Tonyrefail. Mae'r Ddogfen Ymgynghori yn anghywir, fe enillon ni gwobr efydd y Siarter Iaith ym mis Mai 2024. Mae pethau fel hyn yn awgrymu bod y Ddogfen Ymgynghori wedi'i hysgrifennu'n gynharach.	Mae modd i ni ymchwilio i'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y Ddogfen Ymgynghori i sicrhau ei bod yn gywir.
35.	Dim ond cwestiynau ynglŷn â pha glybiau ar ôl ysgol oedd gyda ni a ofynnwyd i Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg. Mae'r adroddiad yn rhagfarnllyd ac o blaid Ysgol Gymuned Tonyrefail – dylid dangos yr holl wybodaeth ar gyfer Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg ochr yn ochr ag Ysgol Gymuned Tonyrefail er mwyn cael barn gytbwys.	Mae'r holl asesiadau effaith yn ddogfennau byw ac mae modd eu diweddarau i adlewyrchu'r wybodaeth a gaiff ei darparu gan y ddwy ysgol. Os oes modd darparu'r wybodaeth gywir, yna cânt eu diweddarau.
36.	Yn hanesyddol, bu'n rhaid i ddisgyblion fynd i ysgol osod yn seiliedig ar ddalgylchoedd. Pam newidiodd hyn?	Mae gweithdrefn statudol a gyflwynwyd yn 2013 gan Lywodraeth Cymru yn rhoi dewis i rieni/gwarcheidwaid.
37.	Mae clybiau ar ôl ysgol yn Ysgol Gymuned Tonyrefail eisoes yn llawn. Mae llawer o ddisgyblion Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg hefyd yn gymwys ar gyfer clwb brechwast – mae pryder na fydd y disgyblion yma'n cael brechwast yn Ysgol Gymuned Tonyrefail pan fo angen.	Mae clwb brechwast yn defnyddio system ymgeisio fyw. Bydd niferoedd yn cael eu pennu ar gyfer clwb brechwast yn seiliedig ar niferoedd staffio (er enghraifft), ond mae modd i hyn dyfu. Bydd y Cyngor yn gweithio gyda'r Penaethiaid i hidlo'r broses ymgeisio. Bwriad clwb brechwast yw darparu brechwast.
38.	Mae pryder y bydd y pellter i Ysgol Gymuned Tonyrefail o Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg yn effeithio ar nifer y disgyblion sy'n mynychu clwb brechwast pan fo angen enbyd yn y gymuned. Beth fydd yn digwydd i'r teuluoedd sydd â pherthynas mor dda ag Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg, sydd wedi cymryd blynyddoedd i'w datblygu? Mae hyn yn tynnu calon y gymuned i ffwrdd.	Wedi'i nodi.

39.	A oes modd i'r polisi derbyn fynd yn ôl i ddweud wrth rieni/gwarcheidwaid pa ysgol i fynd iddi?	Nac oes. Rhaid i ni ddilyn y drefn statudol sy'n caniatáu dewis rhieni/gwarcheidwaid.
40.	Mae angen i aelodau o staff wybod beth fyddai'r opsiynau. A fydd ymgynghoriad diswyddo pe bai'r ysgol yn cau?	Bydd. Bydd carfan AD y Cyngor yn gweithio gyda staff drwy'r broses yma.
41.	Mae'r Ddogfen Ymgynghori yn sôn am safbwyntiau sydd wedi'u neilltuo. Faint o swyddi ychwanegol fydd?	Y Corff Llywodraethu sy'n penderfynu ar faterion staffio, ond byddai'r Cyngor yn gofyn i unrhyw swyddi ychwanegol gael eu neilltuo ar gyfer staff Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg yn y lle cyntaf.
42.	Rydyn ni'n wynebu diswyddiadau staff sylweddol. Dydw i ddim yn deall sut y caniatawyd i ni benodi aelodau o staff newydd yn ddiweddar, sydd bellach wedi eu rhoi mewn sefyllfa fregus o ganlyniad i'r cynnig yma.	Rydyn ni'n deall nad yw hyn yn beth hawdd. Mae'r broses o gau ysgol yn broses caeedig iawn ac nid yw'n cynnwys llawer o swyddogion. Cynnig yw hwn, does dim penderfyniad wedi'i wneud. Mae'n bwysig ein bod ni'n gweithio gyda'r holl aelodau o staff sydd wedi'u dadleoli.
43.	Ydych chi wir yn meddwl y bydd rhieni/gwarcheidwaid yn cerdded i Ysgol Gymuned Tonyrefail i godi eu plant o'r clwb ar ôl ysgol, a allai gymryd 45 munud ychwanegol? Bydd llai o gyfleoedd i'n disgyblion os ydyn nhw'n mynd i ysgol fwy.	Mae cyfleoedd i ddisgyblion mewn ysgolion mwy. Gallai fod cyfleoedd traws-gyfnod i aelodau o staff hefyd.
44.	Ni ddylai dosbarth oeddrannau cymysg fod o bwys gyda'r Cwricwlwm i Gymru. Mae gan Ysgol Gymuned Tonyrefail rai dosbarthiadau cymysg.	Mae modd i ysgolion llai ac ysgolion sydd â llai o ragamcanion wynebu heriau. Mae modd iddo fod yn beth negyddol pan fo ystod oedran a galluoedd mor wahanol.
45.	Pam fod rhestr aros ar gyfer disgyblion yn nalgylch yn Ysgol Gymuned Tonyrefail? Mae rhai disgyblion wedi cael gwrthod lle.	Mae modd apelio yn erbyn ceisiadau derbyn disgyblion. Mae disgyblion sy'n byw yn y dalgylch yn cael blaenoriaeth. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, bydd y dalgylchoedd yn newid i gynnwys disgyblion Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg, a fyddai wedyn yn cael eu hystyried yn ddisgyblion yn y dalgylch. Mae'n risg i unrhyw riant/gwarcheidwaid ddewis ysgol y tu allan i'r dalgylch.
46.	Bydd y presenoldeb yn frwydr. Mae'r penderfyniad yma'n ymwneud ag arian yn unig. Mae angen ichi wrando ar yr hyn y mae'r cynnig yma'n ei olygu i deuluoedd.	Bydd Cabinet y Cyngor yn gwneud y penderfyniad ar sail yr holl ffactorau. Mae'n benderfyniad anodd ei wneud, a bydd yn ystyried yr holl adborth o'r broses ymgynghori. Bydd effaith emosiynol y cynnig yma'n cael ei wneud yn glir i Gabinet y Cyngor.
47.	Gall gymryd amser i roi'r ddarpariaeth arbenigol ar waith ar gyfer disgyblion ag ADY. Mae pryder	Mae blwyddyn academaidd lawn i wneud cyflwyniadau i'r Panel ADY ar gyfer darpariaeth arbenigol. Does dim modd i ni

	na fydd yn gyfnod pontio di-dor, ac nid oes llawer o amser os gwneir penderfyniad ar y cynnig ym mis Ebrill.	ragweld beth fydd y Panel ADY yn ei ddweud nac yn ei benderfynu.
48.	A oes gyda chi ffigurau ar gyfer y datblygiadau lleol? Ydych chi'n edrych ar faint o dai fydd yn cael eu hadeiladu? Rydw i'n meddwl bod y Cyngor yn tanamcangyfrif y datblygiadau sy'n digwydd yn Nhonyrefail.	Cafodd gwybodaeth gan garfan Cynllunio'r Cyngor ei darparu, a bydd y ffigurau yma'n cael eu cynnwys yn ein cyfrifiadau. Os ydych chi'n dymuno i ni wirio ffigurau penodol, mae modd i ni ddarparu ymateb manwl yn rhan o'r Adroddiad Ymgynghori.
49.	Nid yw amseriad y cau yn gwneud synnwyr oherwydd nifer y datblygiadau lleol. Gallai fod 98 o blant yn y datblygiad cyfagos y flwyddyn nesaf.	Mae lleoedd dros ben yn ysgolion y Cyngor oherwydd bod cyfraddau geni yn gostwng. Byddwn ni'n rhannu'r manylion yma ac yn eu cynnwys yn yr Adroddiad Ymgynghori.

4. Sylwadau i Gloi

Hysbyswyd y Corff Llywodraethu ac aelodau o staff y bydd cyfle iddyn nhw fyfyrion ar y cwestiynau a'r ymatebion a ddarparwyd, a chyflwyno cwestiynau ychwanegol lle bo angen dros yr wythnos nesaf.

Mae'r Corff Llywodraethu ac aelodau o staff wedi cael eu hannog i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad drwy lenwi'r arolwg ar-lein, neu anfon sylwadau ysgrifenedig at CynllunioYsgolion@rctcbc.gov.uk.

Diolchwyd i bawb a oedd yn bresennol am gymryd rhan yn y cyfarfod.

Daeth y cyfarfod i ben am 17:48.